| | |
|---|---|
| **,Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 17 Hydref 2017 |
| **Swyddog Arweiniol:** | Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl:** | **Adolygiad Etholiadol Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn adolygu trefniadau etholiadol pob un o 22 o awdurdodau lleol Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adolygiad Etholiadol Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu Adolygiad Etholiadol Sir Ddinbych a fydd yn cael ei gynnal gan Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ac yn darparu gwybodaeth i'r Cyngor am y cyflwyniad y bydd cynrychiolydd o'r Comisiwn yn ei roi yn ystod y cyfarfod heddiw.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried cyflwyniad y Comisiwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ym mis Ionawr 2017 dechreuodd y Comisiwn gynnal adolygiad o holl awdurdodau lleol Cymru. Bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gyllid a'r Llywodraeth Leol, Mark Drakeford, wedi cytuno ar amserlen gyda Sir Ddinbych ac mae'r adolygiad o Sir Ddinbych yn dechrau fis Tachwedd 2017. Sir Ddinbych fydd yr wythfed awdurdod lleol i'w adolygu.

4.2 Bu i gynrychiolwyr o'r Comisiwn gwrdd ag Arweinwyr Grŵp a swyddogion y Cyngor ym mis Medi i amlinellu cwmpas yr adolygiad ac egluro'r broses. Nod adolygiad etholiadol yw sicrhau bod trefniadau etholiadol pob ardal awdurdod lleol yn deg. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod cymhareb etholwyr llywodraeth leol a nifer yr aelodau yn y Cyngor yr un fath, neu bron yr un fath, ymhob ward etholiadol yn Sir Ddinbych. Yn defnyddio strwythur cymunedol presennol awdurdod lleol, bydd adolygiad etholiadol hefyd yn ystyried hunaniaeth cymunedau ac adborth ymgynghoriadau i sicrhau bod cynigion y Comisiwn yn ategu buddion llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer etholwyr Cymru.

4.3 Felly, bydd adolygiad etholiadol yn ystyried:

- Nifer yr aelodau ar y Cyngor
- Ffiniau wardiau etholiadol
- Nifer yr aelodau i'w hethol ym mhob ward etholiadol
- Enw unrhyw ward etholiadol

4.4 Gall aelodau weld dogfennau canllaw y Comisiwn ar y polisi a'r broses ar gyfer cynnal adolygiadau etholiadol ac amserlen y rhaglen ar y gwefannau isod.

Gwefan Gymraeg:
http://ldbc.gov.wales/reviews/electoralreviews/58417614/?skip=1&lang=cy

Gwefan Saesneg:
http://ldbc.gov.wales/reviews/electoralreviews/58417614/?lang=en

4.5 Bydd cynrychiolwyr o'r Comisiwn yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor heddiw i roi cyflwyniad i'r aelodau ar yr adolygiad ac i ateb unrhyw gwestiwn. Mae cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas hefyd wedi eu gwahodd i gwrdd â chynrychiolwyr o'r comisiwn heno (17 Hydref).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd unrhyw gost ynghlwm wrth gynorthwyo'r Comisiwn gyda'r adolygiad yn ymwneud fwy na thebyg ag amser swyddogion.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae'r Adolygiad Etholiadol yn ymarfer statudol sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn ar ran Llywodraeth Cymru. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Gwahoddwyd Arweinwyr Grŵp a swyddogion gyda rolau etholiadol a llywodraethu democrataidd i gwrdd â chynrychiolwyr o'r comisiwn fis Medi.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol amlwg yn sgil y cyflwyniad hwn i'r Cyngor gan y Comisiwn. Bydd goblygiadau ariannol yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniadau'r adolygiad, e.e. o ran nifer yr aelodau etholedig ar y Cyngor ar ôl 2022.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nod adolygiad etholiadol yw darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus a byddai'n werth i Sir Ddinbych gyfrannu'n briodol at broses yr adolygiad i gyrraedd y nod hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Lleol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 gan gynnwys adrannau 21 29, 30 a 34 sy'n ymwneud â chynnal adolygiadau etholiadol.